

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanedi
a gynhaliwyd ar nos Fercher, Mehefin 6th 2018
yn Neuadd Gymunedol Tycroes.

Cofnod rhif 1 – Aelodau'n Bresennol

Cynghorwyr:

A Blackley
A Evans
B Evans
B Thomas
S A Evans
L Griffiths
T Higgins
C Higgins
S Lyle
C Davies
M Davies
E Davies

| |
|--|
| Y Cadeirydd, y Cynghorydd A Blackley, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod |
|--|

Hefyd yn bresennol - y Clerc, David Davies, a'r Swyddog Datblygu Cymunedol, Sarah McColl-Dorion.

Cofnod rhif 2 - Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorydd G Thomas a oedd yn y gwaith, a'r Cynghorydd B Davies sydd wedi cael llawdriniaeth i'w ben-glin.

Cofnod rhif 3 – Datgan Buddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ynghylch y materion ar yr agenda.

Cofnod rhif 3 – Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd, y Cynghorydd A Blackley, ei fod wedi mynychu cyfarfod o'r Cylch Cyfeillgarwch ac wedi croesawu plant o Ysgol Llanedi i ganu yn y digwyddiad.

Cofnod rhif 5 – y Cynghorydd Alan Evans

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Evans ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud gan yr is-bwyllgor ynghylch y Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol. Bu trafodaeth ynghylch rhai o'r rheolau dadlau a gynhwysir yn y Rheolau Sefydlog, ac atgoffwyd yr Aelodau y byddai'r cyfarfodydd yn llifo'n haws pe byddent oll yn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog.

Cofnod rhif 6 – Llofnodi'r Cofnodion – Cyfarfod y Cyngor, Mai 2^{il} 2018

Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddsbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd.

Rheswm – cadw at ofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972, at12, para 41 (1) a (4) ac adran 99.

Cofnod rhif 7 – Llofnodi'r Cofnodion – Cyfarfod y Cyngor, Mai 9^{fed} 2018

Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddsbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd.

Rheswm – cadw at ofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972, at12, para 41 (1) a (4) ac adran 99.

Cofnod rhif 8 – Materion yn Codi

Cofnod rhif 4 – Parc yr Hendy – Parcio Ceir

Soniwyd bod cyfarfod wedi'i gynnal gyda chynrychiolwyr Clwb Rygbi yr Hendy i drafod y posibilrwydd o wneud trefniant parhaol bod aelodau'r cyhoedd yn cael parcio ym maes parcio y Clwb Rygbi.

Cofnod rhif 12 – y Côt Ymddygiad

Nodwyd bod mwy o gynghorwyr wedi mynegi diddordeb yn mynychu'r sesiwn hyfforddi Côt Ymddygiad.

Cofnod rhif 9 – Cyfarfod Ward yr Hendy

Cyflwynodd Aelodau Ward yr Hendy adroddiad yn rhestru'r argymhellion a benderfynwyd arnynt mewn cyfarfod ward diweddar. Dyma'r argymhellion:

Yr Ystafell Ddarllen - cytunwyd bod angen llunio cytundeb gydag Adele Chiltern gan fod y cyfnod heb rhent o 6 mis yn dod i ben ym mis Medi. Gofynnwyd bod y Clerc yn trafod gydag Adele i weld os oes ganddi ddiddordeb yn parhau i gynnal y busnes, ac i drafod y costau cyffredinol sydd ynglwm wrth rheoli'r eiddo.

Hefyd, awgrymwyd efallai bod lle i ddiwygio strwythur rheoli'r caffè a'i ddatblygu yn fwy o Gaffé Cymunedol.

Cofnod rhif 10 – Tŵr y Cloc

Penderfynwyd ychwanegu'r gost o drwsio'r mecanwaith a goleuo mewnol y cloc ar Sgwâr Tygroes at y gyllideb prosiectau am y flwyddyn ariannol gyfredol.

Cofnod rhif11 – Adroddiad y SDC

Cafwyd trosolwg gan y SDC ar gynnwys ei hadroddiad, a ddosbarthwyd yn flaenorol, a chafwyd trafodaeth ynghylch y materion canlynol:

Y Clwb Criced

Cafwyd trosolwg gan y SDC a'r Clerc ynghylch hynt y tendr am waith i baratoi'r safle yn y Clwb Criced. **Penderfynwyd** derbyn y tendr o £6485.00 a gyflwynwyd gan Nigel Jenkins Construction Ltd.

Terfysg Beca – Digwyddiad Coffa

Cafwyd diweddariad gan y SDC am y trefniadau at y digwyddiad. Nodwyd y bydd y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer Mehefin 7^{ed} yn cael ei ail-drefnu, a'i gynnal yn ystod yr wythnos ganlynol.

Ymgynghoriad Cymunedol

Cafwyd adroddiad gan y SDC am y trefniadau cyfredol i gynnal yr ymgynghoriad cymunedol, a'r cynigion ar gyfer yr amrywiol leoliadau. Dywedodd y Clerc bod Cwmaman yn trafod yr opsiwn o ddefnyddio Chwedleuwyr i helpu i gyflwyno'r ymgynghoriad i blant. **Penderfynwyd** cymeradwyo'r defnydd o Chwedleuwyr yn yr ysgolion yn ardal Llanedi os yw hynny'n briodol. Defnyddir baneri, ac efallai y dosberthir taflenni i bob tŷ yn y gymuned, i helpu i farchnata'r digwyddiadau.

Problemau parcio – Clwb Rygbi yr Hendy

Cafwyd trosolwg gan y SDC o'r cyfarfod a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr y clwb. **Penderfynwyd** bod y Cyngor yn ystyried y mater hwn unwaith eto mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Gadawodd y SDC y cyfarfod am 8.00 yh, ac ni ddychwelodd.

Cofnod rhif 12 – Cyfrifoldebau Arbennig

Roedd y Clerc wedi atgoffa'r Cyngor o'r cefndir i'r cynnig a wnaethpwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Bu trafodaeth gyffredinol ynghylch y mater a **penderfynwyd** cytuno ar y cyfrifoldebau arbennig canlynol i gynghorwyr, a bod y cynghorwyr hynny yn derbyn y taliadau isod:

Cadeirydd - £1000

Y Cynghorydd Byron Evans – Cyfrifoldeb am y Clwb Criced – dim tâl.

Cyfrifoldeb Arbennig am y Parciau – y Cynghorydd A Blackley - £500.00

Cofnod rhif 13 – Adroddiadau Ariannol

Roedd y Cyngor wedi derbyn yr Adroddiad Ariannol safonol a ddarparwyd gan y Clerc, ynghyd â chopi o'r cyfrifon diwedd blwyddyn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017 – 2018. Cafodd yr Aelodau drosolwg o'r cyfrifon gan y Clerc, a **penderfynwyd** cymeradwyo'r cyfrifon yn amodol ar dderbyn adroddiad oddiwrth yr Archwilydd Mewnol.

Penderfynwyd trefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid unwaith bod adroddiad yr Archwilydd Mewnol wedi'n cyrraedd, a bod y Pwyllgor Cyllid yn derbyn awdurdod llwyr i dderbyn adroddiad yr Archwilydd ac, lle bo hynny'n briodol, i lofnodi'r Datganiad Blynyddol. Hefyd, gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried cynnal archwiliad i dreuliau'r staff a'r aelodau.

Cofnod rhif 14 – Cynllunio Defnydd Tir – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref

(a) Datblygiadau Arfaethedig

Penderfynwyd cofnodi'r ceisiadau canlynol yn y cofnodion:

Rheswm: Nid oedd yr aelodau wedi gofyn i'r arsylwadau/gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r datblygiadau arfaethedig gael eu cyfleu i Awdurdod Cynllunio'r Sir.

- S/37293 Adeiladu tŷ annedd newydd gyda garej integrol ar llain 3 Heol Bronallt, Fforest, yr Hendy. Mr Neil Eborn.
- S/37220 Amrywio amodau 2 a 3 o S/35402 (cynlluniau a mynediad/ parcio/ trefniadau ar gyfer troi cerbydau yn llain 1, tir ger 34 Heol Penygarn, Tycroes. Mr Malcolm Davies.
- S/37333 3 thŷ annedd preswyl, 1 garej sengl a gwaith mynediad cysylltiedig ar dir y tu ôl i 2 Teras y Felin, Tycroes. Mr R Thomas.

(b) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Gymeradwy-wyd

Penderfynwyd nodi'r ceisiadau canlynol i'r cofnodion.

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

(c) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

(ch) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

Cofnod rhif 15 – Cynnal a Chadw’r llwybrau troed

Dyweddodd y Clerc ei fod wedi derbyn cais oddiwrth Adran Cefn Gwlad y Cyngor Sir yn gofyn am gymorth y Cyngor i reoli’r hawliau tramwy cyhoeddus yn y gymuned. **Penderfynwyd** peidio â chytuno i’r cais hwn gan y Cyngor Sir.

Cofnod rhif 16 – Atal y Rheolau Sefydlog

Penderfynwyd atal y rheolau sefydlog fel bod modd parhau i ystyried busnes y Cyngor ar ôl 9.00 yh

Cofnod rhif 17 – Clwyd – Parc yr Hendy

Dyweddwyd bod y glwyd i Barc yr Hendy mewn cyflwr gwael a bod angen ei hadnewyddu. **Penderfynwyd** gofyn i’r Clerc i gael dyfynbrisiau am gyflenwi clwyd(i) newydd.

Cofnod rhif 18 – Cyrff Allanol

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd T Higgins ynghylch y materion canlynol:

- Derbyniwyd llawer o gwynion ynghylch gor-yrru yn ardal Tycroes ond, serch hynny, mae nifer o wiriadau cyflymder wedi dangos nad oedd y mwyafrif o fodurwyr yn torri’r terfyn cyflymder.
- Mae Cylch Ti a Fi wedi ymsefydlu yn Nhycroes, ac yn agor ei ddrysau yfory.
- Mae’r llyfrgell symudol yn mynychu stâd dai Pantyboblen.
- Derbyniwyd cwynion ynghylch ceir yn gor-yrru yn Coopers; bydd y rhain yn cael eu cyfeirio at y Cyngor Sir.

Cofnod rhif 19 – Prydles - Talyclun

Derbyniodd y Cyngor adroddiad gan y Clerc ynghylch y trafodaethau parhaol gyda chyfreithwyr y Cyngor Sir parthed â’r posibilrwydd o drosglwyddo ased yr ardal chwarae a’r tir gerllaw yn Nhalyclun. Nodwyd bod y Cyngor Sir wedi cynnig y cyfan o’r ardal borfa ynghanol y stâd, yn hytrach na dim ond y tir lle y lleolir yr offer chwarae. **Penderfynwyd** gohirio trafod y brydles tan gyfarfod nesaf y Cyngor.

Cofnod rhif 20 - Gohebiaeth Gyffredinol

Penderfynwyd nodi’r ohebiaeth ganlynol i’r cofnodion: -

| Awdur | Pwnc |
|--------------------------|--------------------------|
| Shopmobility Caerfyrddin | Cais am gymorth ariannol |
| Banc Lloyds | Newid yn yr amodau |
| Blas | Cerdyn o ddiolch |

| | |
|------------------------|--|
| Cyngor Sir Caerfyrddin | Ffioedd Claddu Plant |
| Un Llais Cymru | Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth |
| S Lloyd Janes | Traffig ar hyd Heol y Parc |
| Reach | Newid yr enw o 'Trinity Mirror Publishing' |
| Seafarers UK | Diwrnod Codi'r Lluman Coch |
| Hope Siloh | Llythyr o ddiolch |
| Sunshine Playgrounds | Dyfnbris |

Daeth busnes y Cyngor i ben am 9.17 yh

Llofnod Dyddiad
Cadeirydd